

Craffu ar Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2022-23

Gorffennaf 2022



1. Cyflwyniad

1. Ar 21 Mehefin 2022, gosododd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23 (y gyllideb atodol);¹ Nodyn Esboniadol cysylltiedig² a dyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant (MEG).³ Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog yn y cyfarfod ar 30 Mehefin 2022.⁴

2. Mae'r gyllideb atodol hon yn adlewyrchu newidiadau cyllidebol ers gosod y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2022-23 ar 1 Mawrth 2022⁵ a gafodd ei chymeradwyo gan y Senedd ar 8 Mawrth 2022.⁶ Mae hefyd yn cynnwys addasiadau y gofynnwyd amdanynt i'r cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru, fel yr ystyriodd y Pwyllgor ar 11 Mai⁷ a 9 Mehefin 2022⁸.

¹ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol Gyntaf 2022 i 2023](#)

² Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol Gyntaf 2022 i 2023: Nodyn Esboniadol](#)

³ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol Gyntaf 2022 i 2023: Dyraniadau prif grwpiau gwariant](#)

⁴ Y Pwyllgor Cyllid, [Cofnod y Trafodion](#), 30 Mehefin 2022

⁵ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2022-23](#)

⁶ Y Cyfarfod Llawn, [Cofnod y Trafodion](#), 8 Mawrth 2022

⁷ Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 11 Mai 2022, Eitem 8

⁸ Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 9 Mehefin 2022, Eitem 4

2. Trosolwg

3. Ers Cyllideb Derfynol 2022-23,⁹ bu cynnydd net o £27.8 miliwn yn yr adnodd cyllidol i Lywodraeth Cymru, o ganlyniad i Gyllideb y DU a'r Prif Amcangyfrifon. Mae prif elfennau eraill y gyllideb atodol yn cynnwys:

- Cynnydd o £262.8 miliwn mewn adnoddau heblaw arian parod, yn bennaf o symiau canlyniadol Barnett yn y Prif Amcangyfrifon ym mis Mai 2022 (sef £115.1 miliwn).
- Cynnydd o £339.3 miliwn mewn cyllid cyfalaf cyffredinol, a dderbyniwyd o ganlyniad i'r Prif Amcangyfrifon ym mis Mai 2022. O hyn:
- mae £284.3 miliwn yn ymwneud â gweithredu'r safon gyfrifo newydd ar gyfer lesuedd (mae'r gyllideb atodol hefyd yn cynyddu adnodd anghyllidol £85.2 miliwn ar gyfer hyn);
- mae £47.5 miliwn yn ymwneud â chyllid nad yw'n dod o Barnett ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf; a
- £7.5 miliwn o symiau canlyniadol Barnett.

4. Nid oes unrhyw newidiadau i gyllid datganoledig: mae'r incwm a ddisgwyllir o Gyfraddau Treth Incwm Cymru, y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Dirlenwi ac ardrethi annomestig yn aros yr un fath â Chyllideb Derfynol 2022-23. Nid oes unrhyw newidiadau ychwaith i Gyfalaf Trafodion Ariannol.

5. Mae'r Nodyn Esboniadol¹⁰ yn dangos cynnydd cyffredinol mewn refeniw ynghyd â chyfalaf (ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol) a ddyrennir i adrannau Llywodraeth Cymru o £392.3 miliwn (1.8 y cant), o £21.6 biliwn yng Nghyllideb Derfynol 2022-23 i £22.0 biliwn. Mae crynodeb o'r holl ddyraniadau adnoddau a chyfalaf wedi'u cynnwys yn Nhabl 1 isod.

⁹ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2022 i 2023](#), 1 Mawrth 2022


¹⁰ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Atodol Gyntaf 2022 i 2023: Nodyn Esboniadol](#), 21 Mehefin 2022

Tabl 1: Cyllideb Atodol Gyntaf 2022-23: Crynodeb – Dyraniadau Adnoddau a Chyfalaf Llywodraeth Cymru (Ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol) (£'000)¹¹

Prif Grŵp Gwariant	Cyllideb Derfynol 2022-23	Newidiadau				Cyllideb Atodol 2022-23
		Lesoedd (IFRS 16)	Dyraniadau eraill	Trosglwyddiadau MEG i MEG	Cyfanswm y newid	
Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol	10,132,618	85,190	39,757	(1,400)	123,547	10,256,165
Cyllid a llywodraeth leol	4,651,732	0	65,546	1,376	66,922	4,718,654
Addysg a'r Gymraeg	2,571,046	572	0	8,549	9,121	2,580,167
Newid hinsawdd	2,811,085	199,154	0	(4,062)	195,092	3,006,177
Yr economi	485,213	956	(1,000)	(6,457)	(6,501)	478,712
Materion gwledig	393,162	(22)	0	(69)	(91)	393,071
Cyfiawnder cymdeithasol	246,081	0	1,056	1,152	2,208	248,289
Gwasanaethau canolog a gweinyddu	353,510	437	622	911	1,970	355,480
	21,644,447	286,287	105,981	0	392,268	22,036,715

¹¹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23, 21 Mehefin 2022

















6. Mae'r ffeithluniau isod yn dangos symudiadau arian parod yn y gyllideb atodol a chyfanswm y dyraniadau refeniw a chyfalaf fesul adran, gan gynnwys newidiadau o Gyllideb Derfynol 2022-23:



DEL yw'r rhan o'r gyllideb y gall Llywodraeth Cymru ddewis sut i'w gwario yn ôl ei disgrisiwn ei hun.

AME yw'r rhan o'r gyllideb na all Llywodraeth Cymru ei gwario yn ôl ei disgrisiwn ei hun.

Noder: Nid yw'r newidiadau o gymharu â'r Gyllideb Derfynol yn adlewyrchu'r aiddosbarthiadau cyllideb ar gyfer gweithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16, Lesoedd, sydd wedi'u cynnwys yn y dyraniadau ar gyfer DEL Refeniw, DEL Cyfalaf, ac AME.

	Cyfanswm dyraniad refeniw a chyalaf	Newid o'r Gyllideb Derfynol i'r Gyllideb Atodol Gyntaf 2022-23	
 Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	£10,256m	£38.4m 0.4%	
 Cyllid a Llywodraeth Leol*	£4,719m	£66.9m 1.4%	
 Y Gymraeg ac Addysg**	£2,580m	£8.5m 0.3%	
 Newid Hinsawdd	£3,006m	£4.1m 0.1%	
 Yr Economi	£479m	£7.5m 1.5%	
 Materion Gwledig	£393m	£0.07m 0.0%	
 Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu	£355m	£1.5m 0.4%	
 Cyfiawnder Cymdeithasol	£248m	£2.2m 0.9%	

* Heb gynnwys tua £1 biliwn mewn incwm ardrethi annomestig.

** Yn cynnwys dyraniad o £460 miliwn mewn refeniw anghyllidol yn sgil benthyciadau i fyfyrwyr.

*** Nid yw'r newidiadau yn adlewyrchu'r aiddosbarthiadau cyllideb ar gyfer gweithredu Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16, Lesoedd, sydd wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer Cyfanswm y refeniw a dyraniadau cyfalaf.

7. Fel y sonnir uchod, mae mwyafrif y cynnydd yn y gyllideb atodol yn ymwneud ag adnoddau anghyllidol neu heb fod yn arian parod ac maent yn perthyn i dri categori:

- newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r safon adrodd ariannol ryngwladol newydd ar gyfer lesoedd (IFRS 16);
- dyraniadau eraill; a
- throsglwyddiadau MEG i MEG (mae'r gyllideb atodol hefyd yn darparu manylion trosglwyddiadau o fewn portffolios gweinidogol).¹²

¹² Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2022-23, 21 Mehefin 2022

8. Mae'r gyllideb atodol yn cynnwys y canlynol mewn perthynas â chronfeydd heb eu dyrannu:

- adnodd cyllidol o £152.3 miliwn (cynnydd o £52.2 miliwn ers Cyllideb Derfynol 2022-23);
- adnodd anghyllidol o £669.2 miliwn (cynnydd o £178.8 miliwn ers Cyllideb Derfynol 2022-23); a
- chyfalaf trafodion ariannol o £214.1 miliwn (cynnydd o £1.0 miliwn ers Cyllideb Derfynol 2022-23).

9. Fel yn achos y Cyllidebau Drafft a Therfynol ar gyfer 2022-23, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddyrannu gormod yn erbyn ei chyllideb gyfalaf gyffredinol. Y gorddyranid yn y gyllideb atodol yw £68.2 miliwn, sef gostyngiad o £7.5 miliwn ers Cyllideb Derfynol 2022-23.¹³

10. Mewn ymateb i Argymhelliad 11 a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2022-23,¹⁴ dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r wybodaeth ddiweddaraf am y cyllid sydd wedi'i gynnwys yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru yn cael ei darparu ar ôl cyhoeddi cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru.¹⁵ Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gosod ei chyfrifon ar gyfer 2020-21 gerbron y Senedd eto ac felly nid yw'r balans yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar 31 Mawrth 2021 yn hysbys. Fodd bynnag, mae'r cyllid yn y gyllideb atodol yn cynnwys £34 miliwn a dynnydd i lawr o Gronfa Wrth Gefn Cymru, heb newid o Gyllideb Derfynol 2022-23.

11. Mae benthycy cyfalaf arfaethedig yn parhau i fod yn £150 miliwn, sef y terfyn blynyddol uchaf yn y Fframwaith Cyllidol.¹⁶

¹³ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Atodol Gyntaf 2022 i 2023: Nodyn Esboniadol, 21 Mehefin 2022, tudalen 10

¹⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23, Chwefror 2022, argymhelliad 11

¹⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23: Ymateb Llywodraeth Cymru, Mawrth 2022

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2016

3. Effaith Chwyddiant, Cost a Phwysau Cyflog

12. Mae'r sefyllfa fyd-eang wedi newid yn sylweddol ers cyhoeddi'r Gyllideb Derfynol ar gyfer 2022-23 ar 1 Mawrth 2022.¹⁷ Mae'r rhyfel yn Wcráin yn cael effaith gynyddol, yn enwedig ar ynni a phrisiau bwyd; ac mae effeithiau o hyd ar farchnadoedd a chadwyni cyflenwi yn dilyn pandemig COVID-19 a hefyd trefniadau masnachu ar ôl Brexit. O ran allbwn economaidd, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn rhagweld y bydd twf Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn y DU tua 3.6 y cant ar gyfer gweddill 2022, cyn aros yn ei unfan yn 2023 ar dwf o 0.0 y cant.¹⁸

13. Cyhoeddwyd ffigurau chwyddiant diweddaraf y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar 22 Mehefin 2022 a nodwyd bod chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn 9.1 y cant.¹⁹ Mae Banc Lloegr yn disgwyl i chwyddiant barhau i gynyddu i tua 11 y cant tua diwedd 2022.²⁰

14. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a allai dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2022-23 barhau i gyflawni'r amcanion datganedig yn sgil y pwysau chwyddiant cynyddol, dywedodd:

"There's nothing in the supplementary budget that relates specifically to the impact on inflation, because we are still very much early on in this financial year and it will take time, I think, for us to assess what the wider macro-economic trends are going to be and what their impacts will be on us here in Wales. But we've already made the assessment that our budget will be worth £600 million less over this three-year spending period than we understood it to be at the time it was settled. We've been making a strong case to UK Treasury that budgets should be given a general uplift to account for that to help us in meeting our plans."²¹

15. Fodd bynnag, ychwanegodd y Gweinidog efallai na fydd cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU yn ddigon i fynd i'r afael â'r pwysau a brofir ar hyn o bryd:

¹⁷ Llywodraeth Cymru, [Cyllideb Derfynol 2022 i 2023](#), 1 Mawrth 2022

¹⁸ OECD, [Ciplun Economaidd y Deyrnas Unedig: Crynodeb Rhagolygon Economaidd](#), Mehefin 2022

¹⁹ Swyddfa Ystadegau Gwladol, [CPI ANNUAL RATE 00: ALL ITEMS 2015=100](#)

²⁰ Banc Lloegr, [How high will inflation go?](#)

²¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

*"... if there is any additional funding forthcoming from the UK Government, it's probably going to be unlikely to meet all of the pressures that we are seeing. So, we will have to think about how we deliver our plans."*²²

16. Mae chwyddiant uchel hefyd wedi rhoi ffocws cynyddol ar a ddylid cynyddu cyfraddau cyflog y sector cyhoeddus. Mae adroddiad Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr ym mis Mai yn awgrymu bod codiad cyflog ar gyfartaledd tua 5 y cant ar hyn o bryd.²³ Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau cylch gorchwyl cyflog y gwasanaeth sifil²⁴ ar 31 Mawrth 2022 a roddodd gyfarwyddyd bod adrannau'n gallu gwneud dyfarniadau cyflog cyfartalog hyd at 2 y cant gyda hyblygrwydd ychwanegol i dalu hyd at 1 y cant arall lle gallant ddangos bod dyfarniadau cyflog wedi'u targedu i fynd i'r afael â blaenoriaethau penodol.

17. Mae prif drafodaethau ac adolygiadau cyflog ar gyfer 2022-23 ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru, fel y GIG, awdurdodau lleol ac athrawon, yn dal i fynd rhagddynt. Pan holwyd y Gweinidog am effaith canlyniad y trafodaethau cyflog ar gynlluniau cyllideb Llywodraeth Cymru, dywedodd y Gweinidog:

*"Whatever we decide has to be affordable within existing budgets, because, as you see in the supplementary budget, there's not a huge amount in the reserve."*²⁵

18. Dywedodd y Gweinidog fod angen cyllid ychwanegol i ddangos 'parch' at weithlu'r sector cyhoeddus a'i bod wedi codi'r mater hwn gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, ond roedd yn cydnabod ei bod yn debygol bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU er mwyn talu am unrhyw gynnydd posibl yn isel a bod eu sefyllfa yn 'sefydlog iawn'.²⁶

Barn y Pwyllgor

19. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd cyfraddau chwyddiant annisgwyl o uchel eleni yn cael effaith sylweddol ar gostau darparu gwasanaethau a chyflawni prosiectau a ariennir o fewn cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn nodi mai cronfeydd wrth gefn cyfyngedig iawn sydd gan Lywodraeth Cymru yn y gyllideb bresennol i liniaru'r effeithiau hyn.

²² Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

²³ Banc Lloegr, [Adroddiad Polisi Ariannol](#), Mai 2022

²⁴ GOV.UK, [Canllawiau: Canllawiau Cylch Gorchwyl Cyflog y Gwasanaeth Sifil, 2022 i 2023](#)

²⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

²⁶ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

20. Gan fod disgwyl i gyfraddau chwyddiant aros ar lefelau cyson uchel drwy gydol gweddill y flwyddyn ariannol hon, mae'r Pwyllgor yn pryderu y bydd hyn yn codi amheuaeth ynghylch fforddiadwyedd cyflawni canlyniadau datganedig Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod pryderon y Gweinidog nad yw unrhyw gyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth y DU yn debygol o fod yn ddigonol i ddiogelu gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol rhag pwysau economaidd sy'n deillio o gyfuniad o chwyddiant uchel, costau ynni uchel a chyflogau sefydlog yn y sector cyhoeddus. O ystyried bod pwysau eithriadol o'r fath yn debygol o barhau ac y gallent waethygu, mae'r Pwyllgor o'r farn y bydd angen i'r Gweinidog ddyrannu cyllid gofynnol i feysydd blaenoriaeth fel mater o frys, yn enwedig o ran costau adeiladu. O ganlyniad, mae'r Pwyllgor yn galw ar y Gweinidog i ystyried dod â'r ail gyllideb atodol ymlaen y flwyddyn ariannol hon i sicrhau bod hyn yn digwydd.

21. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r heriau sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru wrth iddi ymateb i adolygiadau cyflog a chynnal trafodaethau cyflog. Gyda setliadau cyflogau'r sector cyhoeddus eto i'w penderfynu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, mae yna risg y bydd gweithwyr y sector cyhoeddus yn wynebu toriadau cyflog sylweddol mewn termau real. Mae'r Pwyllgor yn rhannu pryderon y Gweinidog bod lefelau cyflog yn y sector cyhoeddus mewn perygl o ddisgyn y tu ôl i lefelau tebyg yn y sector preifat a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar allu gwasanaethau cyhoeddus i gadw eu gweithlu. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyfraniad hollbwysig gweithwyr y sector cyhoeddus yng Nghymru, a gafodd ei amlygu yn arbennig yn ystod y pandemig, ac mae'n cefnogi Llywodraeth Cymru i sicrhau bod staff yn cael chwarae teg o ran codiad cyflog yn y dyfodol.

22. Yn sgil y pwysau eithriadol hyn, bydd yn bwysicach nag erioed i'r Pwyllgor gael dealltwriaeth lawn o sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn ac effaith hynny ar flaenoriaethau gwariant. Mae hyn yn cynnwys derbyn diweddariadau rheolaidd ynghylch newidiadau i symiau canlyniadol yn ystod y flwyddyn a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn digwyddiadau cyllidol sy'n digwydd ar lefel y DU, fel datganiad cyllideb hydref y DU neu os oes cyhoeddiadau cyllid sylweddol yn y DU.

Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu asesiad o sut mae pwysau chwyddiant wedi effeithio ar ei chynlluniau gwariant ar gyfer 2022-23, gan gynnwys manylion am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru lle mae disgwyliadau canlyniadau wedi'u gohirio neu eu hailwerthuso fel rhan o'r gyllideb atodol nesaf.

Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, o ystyried y pwysau chwyddiant eithriadol sy'n debygol o barhau ac a allai waethygu yn ystod y flwyddyn ariannol hon, bod Llywodraeth

Cymru yn ystyried cyflwyno ei hail gyllideb atodol fel y gellir dyrannu cyllid i feysydd blaenoriaeth fel mater o frys.

Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion y cyllid canlyniadol a wneir i Gymru gan Lywodraeth y DU a'i fod yn cyhoeddi unrhyw wahaniaethau rhwng ffigurau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn sgil unrhyw ddigwyddiad cyllidol yn yr hydref yn y DU ac ar ôl derbyn amcangyfrifon atodol y DU.

4. Dyraniadau a Blaenoriaethau Eraill

24. Mae'r Nodyn Esboniadol²⁷ sy'n cyd-fynd â'r gyllideb atodol yn amlinellu newidiadau i ddyraniadau ers Cyllideb Derfynol 2022-23. Maent wedi'u crynhoi isod ynghyd â blaenoriaethau a nodwyd gan y Pwyllgor pan yr oedd yn ystyried y gyllideb atodol.

Ymateb i'r rhyfel yn Wcráin

25. Mae'r gyllideb atodol yn dyrannu £20 miliwn ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn fel cymorth ariannol brys i lywodraeth leol i gefnogi'r ymateb i'r argyfwng yn Wcráin. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu rhwydwaith o ganolfannau croeso ledled Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac amrywiaeth o sefydliadau eraill. Mae hefyd yn gweithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi pobl i symud i lety addas fel y cam nesaf cynaliadwy, ac mae llinell gymorth a chanolfannau cyrraedd, ynghyd â chanolfan gyswllt genedlaethol, hefyd wedi'u sefydlu i sicrhau bod ffoaduriaid o Wcráin yn cael llety a chymorth priodol.

26. Ochr yn ochr â'r mentrau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn datblygu llwyfan data cartrefi ar gyfer Wcráin, a fydd yn cefnogi rhannu data sylweddol rhwng awdurdodau, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill.

27. Eglurodd y Gweinidog sut yr oedd yr £20 miliwn a ddyrannwyd yn y gyllideb atodol yn cael ei wario ac a fyddai'n ddigon yn y tymor hir:

"We are putting together a package for people arriving from Ukraine that goes very much above and beyond that which is available across the border, and we're funding that from our own resources ... Is it enough? Well, there is potential, I think, that further funding will be required later on and, if that is the case, you'll see it in the second supplementary budget. It does depend very much on how many people arrive, how long they stay in the welcome centres, and so on, but we're monitoring that really closely and working very closely with local government."²⁸

28. Dywedodd y Gweinidog y bydd Llywodraeth y DU yn darparu cyllid awdurdodau lleol ar gyfer unigolion sy'n cyrraedd ar neu cyn 31 Mawrth 2023 ac i aelwydydd ar gyfer eu lletya, am uchafswm o 12 mis, hyd at 31 Mawrth 2023. Roedd Llywodraeth y DU hefyd yn darparu cyllid i

²⁷ Llywodraeth Cymru, [Ail Gyllideb Atodol 2021-22: Nodyn Esboniadol](#), 21 Mehefin 2022, Tabl 3.1

²⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

gefnogi pobl ifanc sy'n dechrau addysg. Dywedodd y Gweinidog mai dim ond am flwyddyn o'r tair blynedd y mae pobl yn gallu aros yn y DU yw'r cyllid hwn. Ychwanegodd:

*"So, this is something that we're pressing the UK Government on particularly, to confirm funding for years 2 and 3. Our concern is that they won't do that because I think that their view is that people arriving from Ukraine to the UK will become integrated into the welfare system, into the education system and that, potentially, they won't need support from years 2 or 3, but we're continuing to challenge that because there is a risk that local authorities will incur unfunded costs from next year."*²⁹

29. Ar 30 Mehefin 2022, cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig³⁰ ar gyllid ar gyfer cymorth milwrol yn Wcráin yn dilyn adroddiadau³¹ bod Llywodraeth Cymru wedi cyfrannu at £1 biliwn o gymorth milwrol Llywodraeth y DU ar gyfer Wcráin, heb unrhyw ymgynghoriad ystyrlon. Dywedodd:

*"Mae'r Trysorlys yn gweithredu mewn modd newydd sy'n peri pryder ac a allai fod yn gynhennus – drwy geisio defnyddio cyllidebau datganoledig, y dylid eu gwario ar fuddsoddi mewn meysydd datganoledig fel iechyd ac addysg, i ariannu meysydd o wariant a gedwir yn ôl fel cymorth milwrol ac amddiffyn. Cyfrifoldeb Llywodraeth y DU yw ariannu'r meysydd hynny."*³²

30. Ar yr un diwrnod, rhoddodd y Gweinidog ragor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y mater hwn:

"The background to this is that I had a call from the Chief Secretary to the Treasury a week ago saying that the UK Government was looking to all Whitehall departments to return 1.5 per cent of their capital budgets to fund this particular intervention. And the choice at that time was to either provide an upfront contribution from Wales, which would be around the same order of funding, or to wait until later on in the year and have that reduced as a negative consequential. So, given the extraordinary situation in Ukraine, we accepted that at this time and took the decision to provide the funding at this point in the financial year, because it does give us that financial certainty and we're not waiting for the end of the year to find out exactly how much is

²⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

³⁰ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ar gyfer Cymorth Milwrol i Wcráin](#)

³¹ ITV Cymru, [Welsh Government 'not consulted' over budget raid for Ukraine military aid](#)

³² Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Cyllid ar gyfer Cymorth Milwrol i Wcráin](#)

coming off ... We want to support Ukraine, clearly, but we obviously don't want this to be a precedent as to how the UK Government seeks to fund matters that are clearly in the reserved space and which, I think it's fair to say, the UK Government could have".³³

31. Ychwanegodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gynyddu ei therfyn benthycy cyfalaf o £30 miliwn a'i fod ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn er mwyn osgoi unrhyw effeithiau negyddol ar ei chyllidebau:

"We did make a pragmatic suggestion ... to have an additional £30 million capital borrowing available to us in this financial year. So, we're waiting for a response from the Treasury on that ... [and] are asking the UK Government to take a pragmatic approach in terms of our borrowing for this year".³⁴

32. Rhoddodd y Gweinidog hefyd fanylion y cyfraniad a wnaed gan Lywodraeth Cymru i becyn cymorth milwrol Llywodraeth y DU ar gyfer Wcráin mewn llythyr a anfonwyd at y Pwyllgor ar 4 Gorffennaf.³⁵

Cyflogaeth yn y Sector Cyhoeddus

33. Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Prif Weinidog y DU gynlluniau i dorri 91,000 o swyddi yn y gwasanaeth sifil, a oedd yn cynrychioli tua un rhan o bump o'r gweithlu presennol, er mwyn i nifer y staff yng Ngwasanaeth Sifil y DU ddychwelyd i lefelau 2016.³⁶ Yn yr un modd, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ym mis Mai 2022 fod angen iddi 'ailosod' ei sector cyhoeddus ar ôl blynyddoedd o dwf oherwydd Brexit a'r pandemig a bod hynny'n cynnwys dychwelyd i'w maint cyn y pandemig.³⁷ Roedd hyn yn awgrymu gostyngiad o tua 30,000 o swyddi yn y sector cyhoeddus.

34. Pan ofynnwyd iddi am yr effaith y byddai'r cynlluniau hyn yn ei chael ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, esboniodd y Gweinidog:

"We didn't grow our civil service here in Wales to the same extent as they have done in England or Scotland, and they did so as a response to Brexit

³³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

³⁵ [Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, 4 Gorffennaf 2022](#)

³⁶ Civil Service World, [Prime Minister announces plan to cut 91,000 civil service jobs](#), 13 May 2022

³⁷ Llywodraeth yr Alban, [Resource Spending Review Framework: Ministerial statement](#)

and then the pandemic. So, we don't have that greatly enlarged workforce, as compared to a few years ago".³⁸

35. Fodd bynnag, nododd y Gweinidog bryderon ynghylch cynlluniau Llywodraeth y DU, gan fynd ymlaen i ddweud bod 80 y cant o weision sifil yng Nghymru yn cael eu cyflogi gan adrannau Llywodraeth y DU ac y byddai cyfran Barnett o'r 91,000 o swyddi yn golygu colli tua 6,000 o swyddi yng Nghymru.³⁹ Aeth ymlaen i ddweud:

"...we wouldn't want to see jobs in Wales being lost as a result of choices that the UK Government has made. So, it is a worry for us. We don't have clarity yet on what that might mean for our own budget".⁴⁰

36. Cadarnhaodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog fod lefel o ansicrwydd o hyd ynghylch effaith y cynigion hyn ac nad oedd unrhyw fanylion pellach wedi'u rhannu â Llywodraeth Cymru ynghylch yr adolygiad effeithlonrwydd ehangach⁴¹ a wneir gan Lywodraeth y DU.

Prydau ysgol am ddim

37. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar 20 Mehefin 2022 y byddai'r broses o gyflwyno prydau ysgol am ddim yn dechrau ym mis Medi 2022, ac y byddai'n cael ei chwblhau cyn gynted â phosibl mewn ymateb i'r argyfwng costau byw cynyddol.⁴² Byddai effaith ymarferol y polisi fel a ganlyn:

"Bydd hyn yn golygu y bydd y rhan fwyaf o blant mewn dosbarthiadau Derbyn yn dechrau derbyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd o fis Medi.

Erbyn mis Ebrill 2023 bydd y rhan fwyaf o blant ym Mlynnyddoedd 1 a 2 hefyd yn dechrau cael prydau ysgol am ddim, gydag awdurdodau lleol yn cael yr hyblygrwydd, y cymorth a'r cyllid i ddechrau darparu prydau ysgol am ddim i'r rhai ym Mlynnyddoedd 1 a 2 yn gynharach nag Ebrill os oes modd".⁴³

³⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

³⁹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁴⁰ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁴¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁴² Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Y cynllun prydau ysgol am ddim i bawb yn cychwyn cael ei weithredu ym mis Medi](#)

⁴³ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Y cynllun prydau ysgol am ddim i bawb yn cychwyn cael ei weithredu ym mis Medi](#)

38. Pan ofynnwyd a oedd digon o arian ar gael er mwyn i ysgolion sicrhau bod ganddynt gyfleusterau addas i ddarparu prydu ysgol am ddim, dywedodd y Gweinidog:

"We have provided £25 million in the first instance to support adaptations to schools to ensure that the facilities are there to provide those meals. I haven't had a request for further funding, and I'm sure that they're seeking to explore how they work through that £25 million in the first instance, and that's part of the overall £225 million, actually, which we're committed to over the period of the co-operation agreement to deliver the commitment".⁴⁴

39. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd fod camau'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau bod bwyd ar gyfer prydu ysgol am ddim yn cael ei gyrchu a'i gaffael mor lleol â phosibl:

"From a procurement perspective, there's definitely a move to exploring how we can do better in terms of sourcing more locally and supporting the local economy in terms of the purchasing of food for schools".⁴⁵

Dyraniadau ar gyfer Adfer y GIG

40. Ar 26 Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chynllun adfer y GIG, sydd â'r bwriad o drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros.⁴⁶ Mae'r cynllun yn nodi nifer o uchelgeisiau allweddol i leihau amseroedd aros, gan gynnwys na fydd neb yn aros mwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf erbyn diwedd 2022. Ochr yn ochr â'r cynlluniau hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "£60m o arian ychwanegol i'r byrddau iechyd, sef £15m y flwyddyn dros y pedair blynedd nesaf", sydd, meddai, yn golygu ei bod bellach "wedi ymrwymo mwy nag £1 biliwn yn ystod tymor y Senedd hon i helpu'r GIG i adfer wedi'r pandemig".⁴⁷

41. Eglurodd y Gweinidog mai pwrpas y cyllid hwn oedd mynd i'r afael â materion o fewn gofal wedi'i gynllunio a bod clirio'r ôl-groniad yn amlwg yn flaenoriaeth fawr i'r Gweinidog

⁴⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁴⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁴⁶ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Cynllun uchelgeisiol i gael gwared ar amseroedd aros hir a thrawsnewid gofal a gynlluniwyd](#)

⁴⁷ Llywodraeth Cymru, [Datganiad i'r wasg: Cynllun uchelgeisiol i gael gwared ar amseroedd aros hir a thrawsnewid gofal a gynlluniwyd](#)

iechyd ac yn rhywbeth y mae hi'n ei fonitro'n agos iawn drwy'r gwaith y mae hi a'i swyddogion yn ei wneud gyda'r byrddau iechyd.⁴⁸

42. Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Archwilio Cymru ei adroddiad, *Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru*.⁴⁹ Canfu fod cyrff y GIG wedi cael trafferth gwario holl gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 ar ofal wedi'i gynllunio yn y tymor byr. Dywedodd fod cyrff y GIG wedi dychwelyd £12.8 miliwn o'r £200 miliwn a ddyrannwyd yn 2021-22 i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2022.⁵⁰ Dywedodd cyrff y GIG fod gallu staff, diffyg lle ffisegol a chapasiti preifat cyfyngedig i gynnal gofal wedi'i gynllunio yn rhwystrau i wario'r cyllid ychwanegol.

43. Pan ofynnwyd pam na chafodd yr arian ychwanegol hwn i fynd i'r afael ag ôl-groniadau mewn gofal wedi'i gynllunio ei wario, dywedodd y Gweinidog:

"What we didn't know at that time was that omicron was going to come along and throw a spanner in the works quite significantly, again taking us a step back, I think, in terms of our path through the pandemic. So, it was very much omicron that prevented the spend of all of that funding."⁵¹

44. Yn ogystal, mynegodd Archwilio Cymru bryderon hefyd fod rhwystrau sylweddol yn bodoli o fewn y GIG sy'n cyfyngu ar weithgarwch gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys materion yn ymwneud â'r gweithlu, gan ychwanegu bod "gweithlu GIG Cymru wedi blino, wedi'i wasgaru'n denau ac o dan bwysau".⁵² Mewn ymateb i'r pwyntiau hyn, cydnabu'r Gweinidog bopeth a ddywedwyd am y gweithlu dan bwysau mawr ac amlinellodd sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cefnogi staff y GIG i fynd i'r afael â'r materion hyn:

"The workforce plan that the Minister [for Health and Social Services] is leading on is multifaceted. It's about having record investment in training and recruitment, and trying to retain people within the NHS as well, but also reflecting that we have to be using technology in a much smarter way as well."⁵³

⁴⁸ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁴⁹ Archwilio Cymru, *Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru*, Mai 2022

⁵⁰ Archwilio Cymru, *Gallai gymryd hyd at saith mlynedd neu fwy i GIG Cymru ddychwelyd rhestrau aros i'r lefelau cyn y pandemig*, Mai 2022

⁵¹ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁵² Archwilio Cymru, *Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru*, Mai 2022

⁵³ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

Cyfrifo ar gyfer lesioedd

45. O 1 Ebrill 2022, mae'n ofynnol i gyrrff y sector cyhoeddus gydymffurfio ag IFRS 16 - Lesioedd wrth baratoi eu datganiadau ariannol (neu gyfrifon).

46. Dywed Llywodraeth Cymru fod goblygiadau cyllideb IFRS 16 yn cael eu bodloni gan Drysorlys EM dros y tair blynedd a gwmpesir gan yr Adolygiad o Wariant, 2022-23 i 2024-25. Cadarnhaodd y Gweinidog hefyd er gwaethaf yr holl ymarfer technegol sydd wedi'i wneud, nid oes unrhyw newid sylweddol i'r hyn sydd ar gael ganddynt i'w wario.⁵⁴

47. Eglurodd swyddog a oedd gyda'r Gweinidog pam fod y safon newydd wedi'i mabwysiadu a'r gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i gydymffurfio â'r gofynion newydd, a oedd yn cynnwys rhoi sicrwydd i Drysorlys EM bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau o ran IFRS 16. Dywedodd y swyddog hefyd:

"... it [IFRS 16] will be revisited in the supplementary estimates from a UK Government perspective, so we could very well see some changes, but it will give us a chance to review what has actually happened, are those numbers correct, and have an opportunity to revise that".⁵⁵

Barn y Pwyllgor

48. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymdrechion dyngarol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y rhyfel yn Wcráin, yn enwedig yr £20 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yn y gyllideb atodol hon i gefnogi ffoaduriaid o Wcráin yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod yr ymdrechion anhygoel sy'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd, y trydydd sector a phartneriaid eraill i fynd ati'n rhagweithiol i ddarparu'r cymorth hwn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu nad yw'r cyllid yn ddigonol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y mentrau hyn, yn enwedig gan nad yw'r cyllid gan Lywodraeth y DU yn y maes hwn wedi'i ymestyn ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol hon.

49. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn am ddull Llywodraeth y DU o ddefnyddio cyllidebau datganoledig i helpu i ariannu cymorth milwrol i Wcráin. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Gweinidog y dylai cyllid mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli, fel cymorth milwrol ac amddiffyn, gael ei dalu o gyllidebau'r Llywodraeth ganolog. Mae peidio â gwneud hynny yn yr achos hwn yn gosod cysail anffodus ac yn rhoi pwysau diangen ar gysylltiadau rhynglywodraethol. Mae hefyd yn destun gofid bod penderfyniad o'r fath wedi'i wneud gydag

⁵⁴ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

⁵⁵ Y Pwyllgor Cyllid, Cofnod y Trafodion, 30 Mehefin 2022

ond ychydig o ymgynghori a chyn i Lywodraeth y DU ymateb i gais Llywodraeth Cymru i gynyddu ei benthyca blynyddol o fewn y cap benthyca cyffredinol i wrthbwysu'r cyfraniadau a wneir. Mae hyn yn arbennig o bryderus o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi gor-raglennu gwariant cyfalaf eleni, sy'n rhoi pwysau pellach ar gyllidebau cyfalaf sydd eisoes yn gyfyngedig.

50. At hynny, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn dod yn fwyfwy anodd nodi elfennau o fewn y gyllideb sy'n cefnogi gweithgareddau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn. Wrth i'r gefnogaeth i ffoaduriaid o Wcráin gynyddu a dod yn fwy cymhleth, bydd angen tryloywder ychwanegol i ddangos sut mae cymorth ymroddedig o'r fath yn cael ei ariannu.

51. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach gynlluniau Llywodraeth y DU i dorri 91,000 o swyddi yn y gwasanaeth sifil ledled y DU a'r effaith a gaiff hyn ar nifer y swyddi diogel sy'n talu'n dda yng Nghymru. Mae sylwadau'r Gweinidog wedi rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor nad yw Gwasanaeth Sifil Cymru wedi tyfu i'r un graddau ag yn yr Alban neu Loegr. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r toriadau yn swyddi Gwasanaeth Sifil y DU effeithio'n anghymesur ar Gymru, a fyddai'n groes i nodau'r agenda ffyniant bro. Mae'r Pwyllgor yn nodi y bydd Rhaglen Adolygu Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth y DU yn ceisio nodi isafswm o 5 y cant o arbedion ar gyfer pob sefydliad⁵⁶ ac mae'n credu bod angen gwell dealltwriaeth o fwriadau Llywodraeth y DU yn y maes hwn, ei heffaith ar weithlu Cymru a'i heffaith bosibl ar gyllideb Llywodraeth Cymru.

52. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyhoeddiadau diweddar ynghylch gweithredu polisiau prydau ysgol am ddim yn gyflym yn sgil yr argyfwng costau byw. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol y bydd ysgolion unigol mewn sefyllfaoedd gwahanol iawn o ran p'un a oes ganddynt y seilwaith i weithredu'r polisi hwn. Mae'r Pwyllgor hefyd o'r farn bod diffyg eglurder ynghylch faint o'r cyllid hwn y bydd ei angen ar awdurdodau lleol ac ysgolion i ddarparu cyfleusterau perthnasol i gefnogi'r fenter hon ac i sicrhau y caiff ei chyflwyno'n llwyddiannus.

53. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru achub ar y cyfle hwn i annog awdurdodau lleol i roi mwy o sylw i ansawdd a dod o hyd i fwyd lleol fel rhan o'r broses o gaffael prydau ysgol. At hynny, gan fod hwn yn faes polisi allweddol sy'n dod o fewn portffolio'r Gweinidog Addysg, mae'r Pwyllgor yn credu y bydd gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ddiddordeb arbennig yn y materion hyn a bydd yn ysgrifennu ato i ddwyn y materion hyn i'w sylw fel y gellir craffu ymhellach ar y mater hwn.

54. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r adroddiad diweddar gan Archwilio Cymru a ddywedodd fod gweithlu GIG Cymru "wedi blino, wedi'i wasgaru'n denau ac o dan bwysau" a nododd hwn fel un o'r rhwystrau difrifol i gyfyngu ar wasanaethau gofal wedi'i gynllunio. Nodwyd buddsoddiad

⁵⁶ Llywodraeth y DU, [Datganiad i'r wasg: Lansio rhaglen adolygu cyrff cyhoeddus newydd](#), 26 Ebrill 2022

ychwanegol Llywodraeth Cymru mewn addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithlu'r GIG yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2022-23,⁵⁷ ac er bod adnoddau ychwanegol i'w croesawu ar gyfer y meysydd hyn, nid yw'n glir o hyd sut y bydd cyllid yn y maes hwn yn lleddfu'r pwysau uniongyrchol ar staffio.

55. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y pwysau cynyddol ar staff, perfformiad ac amseroedd aros, ac mae'n credu bod angen i Lywodraeth Cymru gael dull strategol o gynllunio a hyfforddi'r gweithlu o fewn y GIG ac yn ehangach ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Yn benodol, mae angen i Lywodraeth Cymru wneud mwy o ymdrech i gynllunio'r gweithlu yn y tymor hir fel bod gwasanaethau'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy. Mae angen buddsoddiad hefyd o addysg i brentisiaethau a hyfforddiant i sicrhau bod gan Gymru weithlu medrus iawn a llwybrau gyrfa deniadol.

56. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi cyflawni ei hymrwymiad i fuddsoddi £1 biliwn yn ystod y tymor Senedd hwn i helpu'r GIG i adfer ar ôl y pandemig. Fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2022-23,⁵⁸ mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio a'r canlyniadau penodol y disgwylir iddi eu cyflawni ar gyfer pob un o'r blynyddoedd y mae'n cael ei ddarparu, gan gysylltu â'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu dros y pedair blynedd nesaf a nodir yng nghynllun adfer y GIG.

57. O ran y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd yn 2021-22 i'r gwasanaeth iechyd i gefnogi adferiad, mae'r Pwyllgor yn mynegi pryder nad oedd byrddau iechyd yn gallu ei ddefnyddio yn llawn a bod rhywfaint o'r cyllid wedi'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru. Er bod y Pwyllgor yn derbyn effaith sylweddol ac annisgwyl amrywiolyn omicron ar gynllunio gwasanaethau iechyd, mae'n destun pryder nad oedd byrddau iechyd lleol yn gallu gwario'r holl ddyraniad ar wasanaethau gofal wedi'i gynllunio a mynd i'r afael â'r ôl-groniad o ran amseroedd aros.

58. O ystyried y symiau mawr o arian a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn y maes portffolio hwn, bydd y Pwyllgor hefyd yn ysgrifennu at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddwyn y materion hyn i'w sylw fel y gellir eu hystyried yn fanylach yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac wrth ystyried y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24.

59. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r newidiadau sy'n ymwneud â chyflwyno IFRS 16 a sut mae Llywodraeth Cymru wedi cael sicrwydd ei bod yn cyflawni ei rhwymedigaethau cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor yn nodi ymhellach y bydd Llywodraeth Cymru yn cael cyfle i gymharu'r ffigurau

⁵⁷ Y Pwyllgor Cyllid, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23](#), Chwefror 2022, paragraff 212

⁵⁸ Y Pwyllgor Cyllid, [Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23](#), Chwefror 2022, argymhelliad 23

gwirioneddol â'r rhai a nodir yn y gyllideb, a gwneud unrhyw ddiwygiadau drwy amcangyfrifon atodol y DU.

Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i ymrwymo i ddarparu cyllid parhaus i gefnogi awdurdodau lleol, aelwydydd sy'n lletya ffoaduriaid o Wcráin a'r sector addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac ar ôl hynny, cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu dadansoddiad o'r cyllid sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gefnogi a lletya ffoaduriaid o Wcráin, o fewn cyllidebau blynyddol ac atodol yn y dyfodol.

Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn gresynu at ddull Llywodraeth y DU o ddefnyddio cyfraniadau o gyllidebau datganoledig tuag at ariannu ei chymorth milwrol i Wcráin ac mae'n galw ar y Gweinidog i godi'r mater hwn gyda chymheiriaid mewn manau eraill yn y DU i sicrhau bod cyllidebau datganoledig yn cael eu diogelu rhag cael eu defnyddio i gyllido meysydd heb eu datganoli yn y dyfodol.

Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu manylion am effaith bosibl adolygiad effeithlonrwydd ehangach Llywodraeth y DU o'r Gwasanaeth Sifil, gan gynnwys unrhyw asesiadau a wneir gan Lywodraeth Cymru o doriadau tebygol i weithwyr Gwasanaeth Sifil y DU yng Nghymru, fel y gellir mesur a lliniaru ei effaith ar swyddi diogel sy'n talu'n dda.

Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn cyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU i sicrhau na fydd unrhyw benderfyniadau i dorri staff y Gwasanaeth Sifil yn cael effaith andwyol ar wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod dadansoddiad pellach o'r cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol i gefnogi polisi prydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu yng nghyllidebau'r dyfodol fel y gellir gwerthuso'r modd y caiff ei roi ar waith mewn cylchoedd cyllideb yn y dyfodol.

Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull hirdymor strategol o gynllunio a hyfforddi'r gweithlu ar draws y sector cyhoeddus i liniaru pwysau staffio yn y dyfodol gyda'r nod hirdymor o wneud gwasanaethau cyhoeddus yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy.

Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer adferiad y GIG yn cael ei ddefnyddio a'r

canlyniadau disgwylidig ar gyfer y cyllid ychwanegol y mae wedi ymrwymo i'w ddarparu dros dymor y Senedd hon.

Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth i egluro pam nad oedd byrddau ieched lleol yn gallu defnyddio'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn 2021-22 yn llawn i gefnogi adferiad y GIG a lleihau'r ôl-groniad o ran amseroedd aros, yn ogystal â nodi pa gamau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau y gellir targedu dyraniadau'r flwyddyn gyfredol ac yn y dyfodol yn briodol i gyflawni ei huchelgeisiau a darparu gwerth am arian.

5. Cyrff a ariennir yn uniongyrchol

60. Mae cynnig y Gyllideb Atodol yn cynnig amrywiad i gyllidebau'r tri chorff a ariennir yn uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru. Trafododd y Pwyllgor y ceisiadau gan Gomisiwn y Senedd (y Comisiwn) ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei gyfarfod ar 11 Mai 2022,⁵⁹ a'r cais gan Archwilio Cymru ar 9 Mehefin 2022.⁶⁰

Comisiwn y Senedd

61. Mae'r Comisiwn yn gofyn am gynnydd i'w gyllideb adnoddau o £2.061 miliwn, y mae'r rhan fwyaf ohono'n ymwneud ag IFRS 16, a chynnydd i'w ofyniad arian parod net o £325,000. Mae'r Comisiwn yn cynnig y newidiadau canlynol:

- IFRS 16: cynnydd o £1.736 miliwn yn y gyllideb gyffredinol, heb unrhyw gynnydd yn y gofyniad arian parod net.
- Newidiadau i'r gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau – dim cynnydd yn y swm cyffredinol, fodd bynnag, cynigir newidiadau i'r llinellau unigol yn y gyllideb.
- Costau i gefnogi gweinyddiaeth y Bwrdd Taliadau Annibynnol: cynnydd o £218,000 a gostyngiad yng nghostau Swyddfa'r Comisiynydd Safonau o £68,000, sy'n cynrychioli cynnydd net cyffredinol o £150,000.
- Costau staffio: cynnydd o £175,000 yn y gyllideb gyffredinol a'r gofyniad arian parod net, i adlewyrchu'r cynnydd mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr.

62. Daw'r newidiadau hyn â chyfanswm cyllideb y Comisiwn i £65.003 miliwn, sef cynnydd o £2.061 miliwn. Y cynnydd yn y gofyniad arian parod net yw £325,000.

63. Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried cynigion y Comisiwn, ysgrifennodd y Cadeirydd at y Comisiynydd sy'n gyfrifol am y Gyllideb a Llywodraethu, Ken Skates AS, gan nodi bod y cais am gyllid ychwanegol o £218,000 i gefnogi'r Bwrdd Taliadau Annibynnol yn gyfran sylweddol o'r costau cymorth o £477,000 y gofynnwyd amdanynt yn y Gyllideb Atodol. Gofynnodd y Pwyllgor am

⁵⁹ Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 11 Mai 2022, Eitem 8

⁶⁰ Y Pwyllgor Cyllid, [Agenda](#), 9 Mehefin 2022, Eitem 4

ragor o wybodaeth, gan gynnwys sut y daethpwyd i'r ffigur, a sut daeth y Comisiwn i'r casgliad bod cais y Bwrdd Taliadau yn rhesymol.⁶¹

64. Ymatebodd y Comisiynydd i gais y Pwyllgor ar 17 Mai 2022.⁶²

65. Yn unol â Rheol Sefydlog 20.32, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried cynigion y Comisiwn, gosododd y Comisiwn femorandwm esboniadol yn nodi'r gyllideb atodol a datgan pam bod ei hangen.⁶³

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

66. Mae cyllideb atodol yr Ombwdsmon yn gofyn am gynydd yng nghyfanswm y gofyniad adnoddau o £51,000 (neu 1 y cant) o gymharu â'r Amcangyfrif a gymeradwywyd ar gyfer 2022-23. Mae'r gofyniad arian parod net yn cynyddu £38,000 (neu 0.7 y cant).⁶⁴

67. Mae'r gyllideb atodol yn gofyn am adnoddau ychwanegol ar gyfer y cynnydd, o fis Ebrill 2022, mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o £38,000, na chafodd ei adlewyrchu yn yr Amcangyfrif ar gyfer 2022-23. Mae costau staff hefyd yn cynyddu £2,000 arall, a ategir gan gynydd cyfatebol mewn incwm, ar gyfer gwaith cyflogres ychwanegol y mae swyddfa'r Ombwdsmon yn ei wneud ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

68. Mae'r gyllideb atodol hefyd yn adlewyrchu effaith gweithredu'r safon gyfrifo newydd ar gyfer lesuedd - IFRS 16. Mae'r newidiadau yn arwain at gynydd net o £13,000 i gyfanswm yr adnoddau y gofynnwyd amdanynt ond nid ydynt yn effeithio ar ofyniad arian parod net yr Ombwdsmon.

Archwilio Cymru

Cefndir

69. Ar 21 Ionawr 2022, ystyriodd y Pwyllgor yr Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2021-22 gan Archwilio Cymru⁶⁵ i ariannu taliad ymlaen llaw sy'n gysylltiedig â dileu hawl cytundebol i Lwfans Teithio ar gyfer staff y bu'n ofynnol iddynt deithio ledled Cymru i wneud eu gwaith.

70. Cymeradwywyd cyllid adnoddau ychwanegol o £1.48 miliwn a oedd yn caniatáu i'r holl staff cymwys gael taliad ymlaen llaw o £7,000 (pro rata) yn gyfnewid am ildio eu hawl i Lwfans

⁶¹ [Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, 16 Mai 2022](#)

⁶² [Llythyr gan y Comisiynydd sy'n Gyfrifol am y Gyllideb a Llywodraethu, 17 Mai 2022](#)

⁶³ Comisiwn y Senedd, [Cyllideb Atodol 2022-23: Memorandwm Esboniadol](#), Mai 2022

⁶⁴ [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23](#)

⁶⁵ [Archwilio Cymru: Amcangyfrif Atodol 2021-22](#)

Teithio blynyddol o £3,350 (pro rata) o fis Ebrill 2022. Roedd gan staff opsiynau eraill o barhau i dderbyn y lwfans tan fis Mawrth 2024 neu, ar gyfer hyfforddeion a phrentisiaid, yr opsiwn i symud i raddfa gyflog newydd, wedi'i meincnodi, heb unrhyw lwfans.

Amcangyfrif Atodol Archwilio Cymru 2022-23

71. Bydd Amcangyfrif Atodol Archwilio Cymru yn dychwelyd cyfanswm o £394,000 eleni (2022-23), gyda £354,000 pellach yn cael ei ddychwelyd y flwyddyn nesaf (2023-24).⁶⁶ Y rheswm dros hyn yw:

- Dewisodd 67 y cant o'r staff cymwys y taliad 'gadael y system' ar gyfanswm cost o £1.086 miliwn.
- Llwyddodd Archwilio Cymru i ariannu £378,000 drwy arbedion ar gyllidebau eraill ac, o ganlyniad, dim ond £708,000 o'r £1.48 miliwn ychwanegol a ddarparwyd a ddefnyddiwyd.
- Yn unol â'r hyn a ddywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Cadeirydd wrth y Pwyllgor yn y sesiwn breifat ar 11 Mai 2022, mae Archwilio Cymru yn cynnig lleihau ei alwad ar Gronfa Gyfunol Cymru £354,000 yn 2022-23 a 2023-24 er mwyn 'ad-dalu' y cyllid o £708,000 a ddefnyddiwyd yn 2021-22.
- Darparodd Amcangyfrif Archwilio Cymru ar gyfer 2022-23 hefyd £750,000 ar gyfer symudiadau o ran cyfalaf gweithio yn ystod y flwyddyn yr oeddent o bosibl yn bwriadu ei ddefnyddio i ariannu'r taliad ymlaen llaw. Caiff hwn ei leihau gan £40,000 oherwydd y nifer llai sy'n manteisio ar y taliad ymlaen llaw, gan ddod â'r gostyngiad yn y cyfanswm ar gyfer 2022-23 i £394,000.

72. Mae'r Amcangyfrif hefyd yn cynnwys llythyr eglurhaol sy'n rhoi rhagor o fanylion am y naratif ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y costau gwirioneddol a'r arbedion sy'n gysylltiedig â dileu'r lwfans teithio i staff yn 2024-25 a'r cynllun 'gadael y system' cysylltiedig.⁶⁷

Barn y Pwyllgor

73. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ceisiadau cyllideb atodol gan Gomisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac Archwilio Cymru.

⁶⁶ [Archwilio Cymru: Amcangyfrif Atodol Cyntaf 2022-23](#)

⁶⁷ [Llythyr gan Archwilio Cymru, 1 Mehefin 2022](#)

- 74.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod cyllidebau atodol Comisiwn y Senedd, Archwilio Cymru a'r Ombwdsmon yn adlewyrchu effaith gweithredu'r safon gyfrifo newydd ar gyfer lesuedd (IFRS 16). Gohiriwyd ei weithredu gan y sector cyhoeddus tan 1 Ebrill 2022 gan Drysorlys EM oherwydd y pandemig.
- 75.** O ran cyllideb atodol Comisiwn y Senedd, mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffaith bod cyllideb y Bwrdd Taliadau Annibynnol wedi'i chyflwyno ar wahân i gyllideb weithredol y Comisiwn. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol a bydd yn helpu'r Pwyllgor yn ei waith craffu ar gyllideb y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn y dyfodol. Mae hefyd yn adlewyrchu statws annibynnol y Bwrdd Taliadau Annibynnol a rôl y Comisiwn wrth ddarparu ei gymorth gweinyddol.
- 76.** Er bod y Pwyllgor yn croesawu bod y Comisiwn yn cyflwyno cyllideb y Bwrdd Taliadau Annibynnol, mae'n ailadrodd ei farn mai dim ond ar ôl i bob opsiwn arall fethu y dylid cynyddu galwad y Comisiwn ar Gronfa Gyfunol Cymru er mwyn cefnogi'r cynnydd mewn capasiti staffio. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd i'r Pwyllgor ar 17 Mai 2022 ac mae'n derbyn bod cais o'r fath yn rhesymol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn dymuno pwysleisio mai'r eithriad yn hytrach na'r rheol ddylai wneud cais am arian ychwanegol i gynyddu nifer y staff. Mae'r Pwyllgor yn atgoffa'r Comisiwn felly y bydd ceisiadau am fwy o staff yn y dyfodol yn cael eu trin yn gadarn ac y dylai ddisgwyl darparu esboniadau manwl i gyfiawnhau penderfyniadau o'r fath.
- 77.** Mewn perthynas â'r costau uwch sy'n gysylltiedig â'r cynnydd yng nghyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr ar gyfer 2022-23 gan Gomisiwn y Senedd a'r Ombwdsmon, mae'r Pwyllgor yn ailadrodd y farn a fynegwyd yn flaenorol y dylai'r ddau sefydliad ariannu pwysau yn ystod y flwyddyn drwy sicrhau arbedion yn ystod y flwyddyn ac arbedion effeithlonrwydd, yn hytrach na thrwy gyllidebau atodol. Rydym hefyd yn ailadrodd ein barn y dylai'r holl gyrff a ariennir yn uniongyrchol barhau i gymhwyso Datganiadau o Egwyddorion y Pwyllgor⁶⁸ cyn gofyn am gyllidebau atodol. Lle bo modd, dylid lliniaru pwysau ariannu yn ystod y flwyddyn yn y lle cyntaf drwy wneud arbedion yn ystod y flwyddyn a gwella prosesau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r gyrff a ariennir yn uniongyrchol, ac yn cytuno bod y cynnydd yn y galw ar y Gronfa yn yr achos hwn yn rhesymol a chymesur.
- 78.** Rydym yn ddiolchgar i'r gyrff a ariennir yn uniongyrchol am eu cydweithrediad parhaus ac am ddarparu rhagor o wybodaeth ar gais y Pwyllgor. Fel y bydd y gyrff hynny'n gwerthfawrogi, mae angen craffu'n drylwyr ar unrhyw gynnydd yn y gyllideb, ac mae angen i'r Pwyllgor fod yn

⁶⁸ Y Pwyllgor Cyllid, [Datganiad o Egwyddorion y mae Pwyllgor Cyllid Senedd Cymru yn disgwyl i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol eu hystyried wrth wneud cynigion cyllidebol](#), 8 Gorffennaf 2021

fodlon bod unrhyw geisiadau am alwadau ychwanegol ar Gronfa Gyfunol Cymru yn cael eu gwneud fel y dewis olaf a bod yr holl arbedion ac effeithlonrwydd posibl wedi'u harchwilio yn gyntaf.

Casgliad 1. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar yr amrywiad yn y cyllidebau ar gyfer Comisiwn y Senedd, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.